



Crynodeb o Adroddiad Ymchwiliad y:  
**Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant**

# **Llunio Adferiad Economaidd Caerdydd Wedi'r Pandemig - CRYNODEB**

**Ionawr 2023**

## CYNNWYS:

CYNNWYS.....	2
RHAGAIR .....	3
CYLCH GORCHWYL .....	4
YMAGWEDD A GYMERWYD .....	5
PRIF GANFYDDIADAU.....	7
ARGYMHELLION.....	16
Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant.....	19

## RHAGAIR

*Wedi'r pandemig, mae ein heconomi yn ailffocysu, gyda newid patrymau gwaith a manwerthu. Ar yr un pryd, mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod angen i ni sicrhau bod ein heconomi yn cefnogi ymdrechion i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae rôl i'r Cyngor yma, i roi arweiniad a gweledigaeth, i sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn gosod strategaeth reoli a chreu lleoedd priodol, i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall eu hanghenion, ac i hwyluso a chynnal sgysiaid i fynd i'r afael â heriau.*

*Yn adroddiad Ymchwiliad cyntaf ein pwyllgor newydd, a ffurfiwyd yn dilyn yr etholiadau lleol yn 2022, penderfynodd Aelodau felly ganolbwyntio ar y rôl y gallai'r Cyngor ei chwarae wrth siapio ein heconomi wedi'r pandemig. Canolbwyntiwyd ar feysydd a amlygwyd eisoes gan y Cyngor fel meysydd yr oedd am eu cynorthwyo, a cheisiwyd barn rhanddeiliaid ar sut y dymument i'r Cyngor helpu. Fe wnaethon ni ystyried tystiolaeth ar yr hyn sydd wedi gweithio mewn manau eraill a chwilio am enghreifftiau ymarferol o gamau gweithredu y gallai'r Cyngor eu cymryd. Drwy gydol ein holl waith, roeddem yn ymwybodol bod y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol enfawr ac mai cyfyngedig fyddai'r cyllid ar gael.*

*Rwy'n ddiolchgar i bawb wnaeth gyfarfod â ni, i rannu eu meddyliau, eu syniadau a'u profiadau o fyw a gweithio yng Nghaerdydd a manau eraill. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i FfBB Cymru am gynnal arolwg o fusnesau bach Caerdydd i lywio'r Ymchwiliad hwn, i Ganolfan Ymchwil Caerdydd am eu gwaith ar arolwg Holi Caerdydd 2022 a oedd yn cynnwys cwestiynau ar gyfer yr Ymchwiliad hwn, ac i'r Ymchwilydd Craffu Gladys Hingco am ei harolwg pwrpasol o weithwyr o bell, cyd-weithwyr, masnachwyr a busnesau bach.*

*Mae hanner ein hargymhellion yn canolbwyntio ar y ffordd orau y gall y Cyngor weithredu'r nod a ddatganwyd ganddo sef i Gaerdydd ddod yn ddinas 15 munud gan gynnwys, yn allweddol, yr angen i gael deialog â thrigolion, cymunedau a rhanddeiliaid. Mae ein hargymhellion sy'n weddill yn canolbwyntio ar gamau gweithredu penodol sy'n deillio o'r dystiolaeth a gawsom; mae'r rhain yn cynnwys camau i helpu canol y ddinas, canolfannau ardal a lleol, busnesau bach, entrepreneuriaid a busnesau newydd.*

*Mae'r Ymchwiliad hwn wedi bod yn bellgyrhaeddol ac, o'r herwydd, mae'n anochel ei fod wedi bod ar lefel uchel mewn manau. Mae yna feysydd sy'n haeddu ymchwilio manylach, ac rwy'n siŵr y bydd y pwyllgor hwn am archwilio'r rhain yn y dyfodol. Hoffwn ddiolch i fy nghyd-aelodau ar y Grŵp Gorchwyl – y Cynghorwyr Berman, Henshaw, Jenkins, Lloyd Jones a Robinson - am gwblhau'r Ymchwiliad hwn mewn amser sy'n record, ac i Angela Holt, y Swyddog Craffu, am ei chefnogaeth.*



**Y Cyngorydd Peter Wong**  
**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant**  
**Ionawr 2023**

## CYLCH GORCHWYL

- I archwilio gyda rhanddeiliaid allweddol yr hyn ddylai rôl y Cyngor fod wrth helpu economi Caerdydd i adfer wedi'r pandemig, gyda chyd-destun o gyllid cyfyngedig, gan edrych yn benodol ar:
  - Anghenion a gofynion gweithio o bell a rhannu manau gwaith
  - Cefnogaeth i fusnesau bach ac artistiaid annibynnol
  - Swyddogaeth Canolfannau Ardal a Lleol
  - Swyddogaeth Canol y Ddinas
  - Model dinas 15 munud
  - Darpariaeth band eang.
- Cyfeirio at arferion da dinasoedd eraill sydd wedi mabwysiadu model dinas 15 munud, gan nodi gwersi allweddol sy'n berthnasol i Gaerdydd.
- I ddefnyddio canfyddiadau'r uchod i wneud argymhellion ar sail gwybodaeth i'r holl randdeiliaid perthnasol ar y pethau sydd fwyaf priodol i Gaerdydd eu gwneud.

## YMAGWEDD A GYMERWYD

M1. Cynhaliodd yr aelodau'r Ymchwiliad hwn yn ystod mis Hydref 2022 - Ionawr 2023.

M2. Derbyniodd aelodau dystiolaeth gan y rhanddeiliaid mewnol canlynol a fynychodd sesiynau holi ac ateb a chyfrannu at drafodaeth banel:

- Y Cyng. Russell Goodway – Aelod Cabinet - Buddsoddi a Datblygu
- Y Cyng. Chris Weaver - Aelod Cabinet - Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
- Cyng Caro Wild – Aelod Cabinet – Newid yn yr Hinsawdd
- Phil Bear – Pennaeth TGCh
- Jon Day - Rheolwr Gweithredol - Twristiaeth a Buddsoddi
- Mandy Evans – Rheolwr Prosiect Cronfa Band Eang Lleol
- Andrew Gregory – Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
- Gladys Hingco - Prif Swyddog Ymchwil Craffu
- Rebecca Hooper – Rheolwr Gweithredol - Adfywio Cymdogaethau

M3. Derbyniodd yr aelodau dystiolaeth hefyd gan y rhanddeiliaid allanol canlynol:

- Rob Bassini – FfBB Cymru
- Adrian Field - Cyfarwyddwr Gweithredol, Caerdydd AM BYTH
- Peter Hall – Perchennog Busnes – Stryd Fawr Llandaf
- Gareth Jones – Prif Weithredwr – Town Square
- Phil Kaye – Perchennog Busnes - Heol Wellfield
- Jess Mahoney – Uned Economi Greadigol/ Caerdydd Creadigol
- Richard Sewell – Pennaeth Seilwaith Digidol – Llywodraeth Cymru
- Adam Sparkes - Rheolwr Cymunedol – Cwrt Coworking, Llanisien
- Richie Turner – Rheolwr Deorfa, Stiwdio - Prifysgol De Cymru
- Roisin Willmott – Cyfarwyddwr – Cymru a Gogledd Iwerddon - RTPi

M4. Talodd y Gwasanaethau Craffu am gael cynnwys cwestiynau sy'n berthnasol i'r Ymchwiliad hwn yn arolwg Holi Caerdydd y Cyngor, sydd ar gael i'r holl drigolion ei gwblhau. Dangosir y canlyniadau dros dro yn Atodiad 7 a'u plethu i'r adroddiad lle bo hynny'n berthnasol.

- M5. Cynhaliodd Ymchwil Craffu hefyd arolwg pwrpasol yn targedu gweithwyr o bell, busnesau bach, a masnachwyr canol y ddinas, canolfannau lleol ac ardal Mae'r adroddiad ynghlwm yn Atodiad 6 ac wedi'i blethu i'r adroddiad lle bo hynny'n berthnasol.
- M6. Er mwyn rhoi gwybod i'r Ymchwiliad, cafodd Aelodau adroddiadau briffio cyn pob cyfarfod. Mae'r rhain wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad.
- M7. Mae'r dystiolaeth wedi cael ei defnyddio i nodi canfyddiadau addas o'r Ymchwiliad.

## PRIF GANFYDDIADAU

Yn unol â chylch gorchwyl yr Ymchwiliad hwn, mae'r prif ganfyddiadau yn canolbwyntio ar rôl y Cyngor wrth lywio economi Caerdydd ar ôl y pandemig, mewn cyfnod o gyllid cyfyngedig, gan gynnwys y ffordd orau o roi dinas 15 munud ar waith, sy'n un o brif addewidion y Weinyddiaeth bresennol.

### Arweinyddiaeth

KF1. Mae angen i wleidyddion ac uwch-swyddogion roi arweiniad a sicrhau gweledigaeth ar gyfer economi Caerdydd, ar ôl y pandemig; mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Adfer ac Adnewyddu a'r Cynllun Gweithredu Adferiad Canol y Ddinas. Erbyn hyn mae angen adeiladu ar y rhain drwy gyfleu'r weledigaeth bod Caerdydd yn ddinas 15 munud o hyd, gan egluro i drigolion, busnesau, a buddsoddwyr yr hyn y mae Caerdydd yn dymuno ei gyflawni trwy fod yn ddinas 15 munud a sut mae'n bwriadu gwireddu hyn.

KF2. Bydd eglurder pwrpas ac arweinyddiaeth yn helpu i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i alinio adnoddau, gan alluogi newidiadau ymddygiad yn unol â dinas 15 munud.

### Strategaeth a Pholisi

KF3. Mae'n bwysig cydnabod y rôl economaidd mae Caerdydd yn ei chwarae fel prifddinas a chanolfan ranbarthol a sicrhau bod model dinas 15 munud Caerdydd yn cydnabod hyn ac yn galluogi Caerdydd i barhau â'r rôl hon, wrth gydbwysu hyn â'r angen i sicrhau mynediad at wasanaethau lleol.

KF4. Bydd gwahanol rannau o Gaerdydd yn gofyn am ffyrdd gwahanol o fod yn ddinas 15 munud o hyd - nid yw'n syniad 'un maint ar gyfer pawb'.

KF5. Dylai'r Cyngor adolygu'r Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Adfer ac Adnewyddu a Chynllun Gweithredu Adferiad Canol y Ddinas yn flynyddol a galluogi newid camau gweithredu yn ôl yr angen, o ystyried y dirwedd economaidd sy'n newid yn gyflym.

KF6. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn dangos ei fod o blaid busnesau bach, er enghraifft yr ymrwymiad strategol i sicrhau bod ei broses gaffael yn dda i fusnesau bach.

KF7. Mae'n hanfodol bod y model 15 munud ar gyfer Caerdydd wedi'i ymgorffori ym mholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol, gan fod hyn yn gosod yr ymagwedd ar gyfer rheoli a chreu lleoedd, gan roi'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynllunio.

KF8. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol hefyd yn bwysig i ymhelaethu ar sut mae'r Cyngor yn ffafrio datblygiadau sy'n bodloni'r model 15 munud ar gyfer Caerdydd.

### **Gweithio Rhanbarthol**

KF9. Tynnodd sawl tyst sylw at yr angen i'r Cyngor weithio gyda Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer economi Caerdydd, gan gynnwys sicrhau bod hyfforddiant a chymorth sgiliau yn mynd i'r afael â'r materion recriwtio sy'n wynebu Caerdydd, marchnata, twristiaeth, a datblygu economaidd yn gyffredinol.

KF10. Clywodd yr Ymchwiliad na fydd hi'n bosib i Gaerdydd gyflawni model 15 munud heb drafod gydag awdurdodau lleol cyfagos, oherwydd bod trafndiaeth a darparu gwasanaethau rhanbarthol yng Nghaerdydd e.e., gwasanaethau iechyd, yn rhyng-gysylltiedig. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol sydd eto i'w ddatblygu helpu gyda'r trafodaethau hyn, gan ddarparu ymagwedd rhanbarthol tuag at gynllunio.

### **Ymgysylltu**

KF11. Clywodd yr Ymchwiliad hwn gan sawl tyst ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â nhw fel bod y Cyngor yn ymwybodol o'r anghenion a'r gofynion mewn gwahanol sectorau. Roedd hyn yn cynnwys:

- a. Masnachwyr Canolfannau Ardal a Lleol yn gofyn i'r Cyngor sefydlu Fforymau Masnachwyr, i rannu gwybodaeth, mynd i'r afael â phroblemau, a gweithio'n adeiladol i hyrwyddo canolfannau
- b. Caerdydd Creadigol / Uned Economi Greadigol yn tynnu sylw at yr angen i ymgynghori'n benodol a gweithredol â'r gymuned greadigol ar adeg gynharach o ran safleoedd datblygu, er mwyn helpu i ddeall anghenion a chyfleoedd ac felly cyfrannu at y broses gynllunio
- c. RTPI Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod ymgysylltu cymunedol yn allweddol er mwyn gweithredu'r model dinas 15 munud yn llwyddiannus.

KF12. Mae sawl ardal yn u gwledydd hyn naill ai'n ymgynghori neu wedi ymgynghori â'u cymunedau ynglŷn â dinasoedd 15 munud; mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion gwaith yn yr Alban, gan gynnwys Caeredin, ac Ipswich.

KF13. Wrth ddatblygu'r model dinas 15 munud ar gyfer Caerdydd, mae'n bwysig rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o ymgysylltu ac ymgynghori, er mwyn meithrin ymddiriedaeth i sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed yn hytrach na'r lleisiau uchaf eu cloch; mae hyn yn gofyn estyn allan mewn ffyrdd gwahanol i gysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd mewn gwahanol rannau o'r ddinas. Er bod hyn yn



cymryd amser ac yn ddwys o ran adnoddau, mae'n golygu bod cynlluniau'n wirioneddol adlewyrchu cymunedau ac yn fwy tebygol o lwyddo.

KF14. Mae sawl mecanwaith cynllunio cyfranogol a fyddai'n cynorthwyo'r Cyngor i ymgysylltu'n effeithiol wrth weithredu dinas 15 munud, gan gynnwys cynlluniau cynefin a gweithio drwy Gymorth Cynllunio Cymru.

### **Cymorth Ariannol**

KF15. Amlygodd sawl tyst i'r Ymchwiliad fod angen ymestyn rhaglenni rhyddhad rhag ardrethi busnes i gefnogi sectorau penodol o economi Caerdydd. Yn ystod yr Ymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ymestyn rhyddhad rhag ardrethi busnes i fusnesau cymwys yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch. Clywodd yr aelodau y byddai'r canlynol hefyd yn ddefnyddiol:

- a. Ymestyn rhaglenni Rhyddhad Ardrethi Busnes dewisol ar gyfer busnesau y sector creadigol sy'n darparu gwerth cymdeithasol neu gymunedol, gyda graddfa symudol i gefnogi cynaliadwyedd
- b. Ymestyn rhaglenni Rhyddhad Ardrethi Busnes dewisol i gwmnïau Corp B, sy'n cael effaith economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol, sy'n defnyddio unedau gwag uwchben eiddo manwerthu, sy'n annog niferoedd ymwelwyr.

KF16. Roedd sawl tyst i'r Ymchwiliad yn pendroni a oedd lle i ddefnyddio rhywfaint o'r Cyllid Ffyniant a Rennir a ddyfarnwyd i'r Cyngor er mwyn:

- a. Cael cronfa fenter ar lefel is ar gyfer busnesau bach
- b. Cefnogi ail ddychmygu canol y ddinas.

KF17. Amlygodd tystion eraill i'r Ymchwiliad fod symiau cymharol fach o arian (£2,000) yn gwneud yr holl wahaniaeth i fusnesau newydd sy'n ceisio tyfu ac yn meddwl tybed a allai'r Cyngor:

- a. Sefydlu cynllun gyda benthycwyr dethol yn y sector preifat i warantu benthyciadau bach (£2,000) ar gyfer busnesau newydd, gan alluogi benthycwyr i gynnig mwy cyfraddau mwy fforddiadwy
- b. Sefydlu cynllun gwaddol i entrepreneuriaid.

KF18. Clywodd yr Ymchwiliad hefyd y gallai fod lle i ganolfannau ardal sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes (AGBau) a fyddai'n codi arian i fynd tuag at ddigwyddiadau cymunedol a gweithgareddau eraill sy'n flaenoriaethau gan y masnachwyr lleol.

### **Deall Anghenion a Gofynion**

KF19. Gyda phatrymau newid mewn lleoliadau gwaith a manwerthu, clywodd yr Ymchwiliad hwn ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn defnyddio data i ddeall y newidiadau hyn a thargeddu camau gweithredu yn unol â hynny:

- a. Defnyddio data defnydd ffonau symudol i ddeall patrymau ymddygiad yng nghanol y ddinas, gan alluogi busnesau, rheoli digwyddiadau a marchnata i dargedu'n fwy effeithiol
- b. Cynnal ymchwil i egluro newid yn arferion trigolion o ran eu defnydd o ganol y ddinas a'u defnydd o ganolfannau lleol ac ardal
- c. Mapio ardaloedd cerdded/beicio 15 munud a throshaenu hynny gyda darpariaeth gweithio o bell a rhannu manau gwaith i nodi bylchau
- d. Defnyddio cronfeydd data'r Cyngor sydd ar gael i'w holi am anghenion o bell a rhannu manau gwaith er mwyn helpu i egluro'r galw.

KF20. Mae gweithredu egwyddorion dinas 15 munud yn llwyddiannus wedi ei seilio ar ddealltwriaeth drylwyr o batrymau defnydd ac anghenion trigolion. Mae hyn yn gofyn casglu data cynhwysfawr i ddeall patrymau defnydd, dadansoddi gofodol, ac ymchwil ansoddol i ddeall anghenion trigolion.

### **Trafnidiaeth Gyhoeddus**

KF21. Amlygodd Caerdydd AM BYTH a Chaerdydd Creadigol / Uned Economi Greadigol yr angen am rwydwaith trafndiaeth gyhoeddus gref yn hwyrach gyda'r nos, er mwyn helpu economi Caerdydd yn y tymor hwy. Byddai hyn yn galluogi ymwelwyr a gweithwyr i gyrraedd adref yn ddiogel. Amlygon nhw y byddai hyn yn helpu cyflogwyr sy'n ei chael hi'n anodd denu staff i weithio'n hwyr, er enghraifft yn y sectorau lletygarwch a hamdden, yn ogystal â'r rhai sydd eisoes yn gweithio'n hwyr, gan gynnwys pobl greadigol.

KF22. Amlygodd Caerdydd AM BYTH ei bod yn bwysig cynllunio unrhyw estyniad yn ofalus, er mwyn sicrhau bod unrhyw estyniad yn cael ei weithredu am gyfnod digonol er mwyn dylanwadu ar newid ymddygiad a chreu'r niferoedd teithwyr sydd ei angen i dalu costau trafndiaeth gyhoeddus yn hwyr yn y nos. Ychwanegon nhw nad nawr efallai yw'r amser iawn i dreialu estyniad, o ystyried y pwysau economaidd sy'n wynebu defnyddwyr, ond bod hyn yn bendant yn rhywbeth sydd angen mynd i'r afael ag ef yng Nghaerdydd yn y tymor hwy.

### **Teithio Llesol**

KF23. Mae darparu llwybrau teithio llesol yn ganolog i ddinas 15 munud. Mae ymatebion i'r arolwg Holi Caerdydd yn nodi mai dim ond 26% o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo bod lonydd beicio diogel a/ neu lwybrau i alluogi mynediad i'w gwasanaethau cymdogaeth a'u mwynderau lleol, a dim ond 48% o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo bod yna lwybrau cerdded diogel.

KF24. Amlygodd RTPI Cymru nad oedd canllawiau Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn ymdrin â theithio llesol ac felly mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod llwybrau teithio llesol ar gael sy'n galluogi disgyblion, athrawon a staff i gyrchu eu hysgolion yn ddiogel.

KF25. Clywodd yr Ymchwiliad hwn fod busnesau angen cyngor a chefnogaeth i ddangos iddynt sut y gallai rhai ohonynt ddefnyddio teithio llesol a rhannu arferion da ymhlith busnesau ar y ffordd orau o ad-drefnu manau gwaith i gynnig cyfleusterau teithio llesol.

KF26. Tynnodd FfBB Cymru sylw at y ffaith bod cerbydau angen cerbyd i gario eu hoffer / cyfarpar. Fe wnaethon nhw alw ar y Cyngor i weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y busnesau hynny sydd angen cerbyd yn cael eu cefnogi i ddefnyddio cerbyd trydan drwy osod seilwaith a rhoi cyngor ac arweiniad a llobio i gymhellion i gerbydau trydan i fusnesau.

### **Tâl Tagfeydd**

KF27. Amlygodd Caerdydd AM BYTH a FfBB Cymru yr angen i egluro a fydd yna dâl tagfeydd ai peidio a sut y byddai hyn yn gweithio.

### **Ymateb i Batrymau Gwaith sy'n Newid**

KF28. Er bod gan Gaerdydd ddarpariaeth o sawl math o ofod gwaith, clywodd yr Ymchwiliad hwn:

- a. Does gan Gaerdydd ddim yr un lefel o ddarpariaeth rhannu manau gwaith â dinasoedd eraill fel Amsterdam a Llundain
- b. mae prinder gofod dilynol fforddiadwy sydd â'r rhwydweithiau cymorth cywir i alluogi busnesau newydd i dyfu
- c. mae diffyg unedau diwydiannol bach addas mewn lleoliadau da, gyda phremiwm yswiriant isel.

KF29. Mae gan y Cyngor ran bwysig i'w chwarae wrth hwyluso ac i cynnull sgysiau ynghylch yr anghenion sy'n deillio o newid mewn patrymau gwaith. Yn yr un modd, mae ganddo rôl bwysig i'w chwarae wrth alluogi darparu gofod gwaith priodol.

KF30. Clywodd yr Ymchwiliad hwn y gallai'r Cyngor, drwy ei rôl gynllunio, gynorthwyo darpariaeth gofod gwaith drwy:

- a. Gynnwys yr angen am ddarpariaeth rhannu manau gwaith mewn datblygiadau newydd
- b. Cefnogi integreiddio defnydd diwylliannol a chreadigol ar adeiladau mewn cynlluniau datblygu hirdymor
- c. Mabwysiadu Polisi Gofod Gwaith Fforddiadwy
- d. Gwneud defnydd mwy deinamig a dychmygus o Adran 106.

- KF31. Clywodd yr Ymchwiliad hwn y gallai'r Cyngor hefyd gynorthwyo darpariaeth gofod gwaith drwy:
- a. Datgloi asedau – ei asedau ei hun a rhai partneriaid yn y sector cyhoeddus
  - b. Datblygu cofrestr o ofod
  - c. Datblygu cofrestr risg
  - d. Defnyddio cymhellion / datgymhellion i annog landlordiaid i ddod ag unedau stryd fawr gwag yn ôl i ddefnydd
  - e. Prynu warysau gwag ar draws Caerdydd a'u troi nhw yn unedau llai.

### **Ymateb i Newid Patrymau Manwerthu**

KF32. Cododd sawl tyst yr angen i wella profiad y rhai sy'n defnyddio canol y ddinas a chanolfannau lleol ac ardal, fel a ganlyn:

- a. Gwella'r strydlyn
  - i. Sicrhau mwy o feinciau, byrddau a chadeiriau ar balmentydd, i roi lle i gymdeithasu a chreu teimlad cymunedol
  - ii. Rhoi lliw i strydoedd drwy ddarparu blychau plannu, biniau sbwriel a baneri goleuadau stryd
  - iii. Cyflwyno strategaeth fysgio ac is-ddeddfau i hyrwyddo bysgio da sy'n ychwanegu at awyrgylch a mynd i'r afael â bysgio gwael sy'n niweidiol i fusnesau cyfagos.
- b. Sicrhau atyniadau/digwyddiadau i ymwelwyr
  - i. Cyflwyno atyniad ymwelwyr yng nghanol y ddinas
  - ii. Cefnogi canolfannau lleol ac ardal gyda digwyddiadau cymunedol
- c. Mynd i'r afael â chardota a dwyn o siopau
  - i. Trafod â'r Heddlu ynghylch patrolau SCCH a Radio-Net
  - ii. Arfarnu'r defnydd o Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yng Nghasnewydd ac a fyddai'r rhain yn gweithio yng Nghaerdydd
- d. Mynd i'r afael â digartrefedd
  - i. Cynorthwyo Caerdydd AM BYTH i farchnata a hyrwyddo eu prosiect digartrefedd "CAERedigrwydd"

KF33. Ar gyfer canolfannau lleol ac ardal, nodwyd hefyd bod parcio yn faes y gallai'r Cyngor gynorthwyo ynddo, drwy nodi ardaloedd addas i ddarparu manau ychwanegol. Mae hyn yn clymu â'r ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg Holi Caerdydd, lle'r ystyriwyd cyfleusterau parcio gwael fel y rhwystr pennaf a sgôr o 24%, rhag gallu cyrchu gwasanaethau cymdogaeth lleol.

### **Gwella Rhyngwyneb â'r Cyngor**

KF34. Amlygodd FfBB Cymru fod yna lawer o agweddau ar y Cyngor sy'n rhyngwynebu â busnesau bach gan gynnwys cynllunio a thrwyddedu. Fe wnaethant dynnu sylw at farn eu haelodau bod angen adolygu prosesau cynllunio a thrwyddedu er mwyn symleiddio a chyflymu prosesau, yn enwedig ar hyn o bryd pan fydd costau'n cynyddu'n gyflym, ac y gall prosiectau droi yn anfforddiadwy os yw'n cymryd gormod o amser i gael caniatadau perthnasol.

### **Cymorth Busnes**

KF35. Tynnodd FfBB Cymru sylw at farn eu haelodau bod angen darparu cyngor a chanllawiau i fusnesau bach. Fe bwysleision nhw nad oedd hyn yn golygu bod angen i'r Cyngor ddarparu'r cymorth busnes ond eu bod yn gallu cyfeirio at sefydliadau sy'n gallu rhoi cymorth i fusnes, yn enwedig o ran sut y gall busnesau bach ddod yn fwy cynaliadwy.

### **Marchnata/ Cyhoeddusrwydd**

KF36. Amlygodd sawl tyst i'r Ymchwiliad y gallai'r Cyngor ddefnyddio ei sianeli marchnata a chyfryngau cymdeithasol i gynorthwyo adferiad economaidd ar ôl y pandemig:

- a. Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol y Cyngor i hyrwyddo canolfannau lleol ac ardal a hybu 'siopa'n lleol'
- b. Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol y Cyngor i greu syniadau a diddordeb mewn cymunedau lleol i gefnogi canolfannau lleol ac ardal
- c. Y Cyngor i fod yn rhan o ymgyrch gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o wahanol fathau o ofod gwaith a'u manteision.

KF37. Dywedodd Caerdydd AM BYTH wrth yr Ymchwiliad y gallen nhw ymgymryd â'r rôl Marchnata Cyrchfannau ar gyfer Caerdydd, fel sy'n digwydd mewn mannau eraill, ac y gallai hynny arwain at arbedion i'r Cyngor.

### **Rôl Cynllunio wrth weithredu model dinas 15 munud**

KF38. Mae swyddogaeth gynllunio'r Cyngor yn allweddol er mwyn datblygu a gweithredu model 15 munud yn llwyddiannus ar gyfer Caerdydd. Pwysleisiodd RTPI Cymru ei bod hi'n bwysig felly sicrhau bod digon o adnoddau ym maes cynllunio, er mwyn delio gyda'r mapio, cynllunio ac ymgysylltu cymunedol manwl sydd eu hangen.

KF39. Ar lefel strategol, mae angen i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig gyfleu gweledigaeth, amcanion a gofynion y Cyngor o ran bod Caerdydd yn ddinas 15 munud, a thrwy hynny osod y fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynllunio.

KF40. Gall cynllunio helpu i wneud Caerdydd yn ddinas 15 munud, drwy ôl-ffitio dinesig ac mewn datblygiadau newydd, drwy ymgymryd â dadansoddiad gofodol, modelu ymyriadau posibl i adfer / sicrhau cysylltedd, cyrchu cyfleusterau sydd o fudd i gymunedau presennol a rhai newydd, ac osgoi datblygiadau sy'n ddibynol ar geir.

KF41. Clywodd yr Ymchwiliad hwn, ar gyfer datblygiadau newydd, ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn negodi bod darpariaeth seilwaith allweddol - fel trafndiaeth gyhoeddus a ffyrdd - yn cael ei ddarparu o flaen llaw a chyn i drigolion symud i mewn, fel bod arferion trigolion yn cael eu llunio o'r dechrau'n deg.

KF42. Clywodd yr Ymchwiliad hwn, o ran dwysedd a hyfywedd, bod angen i'r Cyngor sicrhau bod datblygwyr yn cael canllawiau clir o flaen llaw ar y disgwyliadau ar gyfer datblygiadau, fel bod y rhain wedi'u cynllunio i mewn o'r dechrau. Fel arfer, mae datblygiadau mwy dwys yn gallu cwrdd ag egwyddorion dinas 15 munud, am y bydd dwyseddau poblogaeth yn cefnogi cyfleusterau masnachol lleol ac, ar gyfer datblygiadau newydd, yn codi mwy o arian ar gyfer negodi i ddarparu cyfleusterau cymunedol. Fodd bynnag, nid oes angen i hyn fod yn ddatblygiad fflatiau uchel, gall dwysedd adeiladau is eu taldra fod yn ddigonol.

KF43. Ar lefel benodol, clywodd yr Ymchwiliad hwn ei fod yn bwysig bod y Cyngor yn ystyried darpariaeth gofal plant wrth gynllunio Caerdydd fel dinas 15 munud, fel bod rhieni sy'n gweithio yn cael cefnogaeth, yn enwedig entrepreneuriaid.

KF44. Awgrymodd RTPI Cymru fod Cyngor Caerdydd yn ystyried ymuno â Siarter Creu Lleoedd Cymru, sy'n gallu helpu i ddod â'r holl elfennau ynghyd sydd eu hangen i sicrhau cymunedau cynaliadwy.

KF45. Tynnodd RTPI Cymru sylw at eu pecyn cymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, [RTPI | Mesur Beth sy'n Bwysig: Pecyn Cymorth Canlyniadau Cynllunio](#), a fyddai'n adnodd defnyddiol i fonitro llwyddiannau mewn darpariaeth newydd, ac a yw Cyngor Caerdydd yn adeiladu llefydd gwell.

### **Band Llydan**

KF46. Mae gan rhan helaethaf Caerdydd fynediad at fand eang ac yn ôl arolwg diweddar Holi Caerdydd, mae 80% o ymatebwyr yn weddol neu'n fodlon iawn gyda lefel eu cysylltedd.

KF47. Yn ôl Llywodraeth Cymru mae 20,000 o eiddo yng Nghaerdydd sydd heb eu cynnwys mewn cynlluniau masnachol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen gigabit - Ffeibr Llawn i'r Adeilad (FTTP). Mae

Cyngor Caerdydd wedi llwyddo mewn cais Band Eang Lleol gwerth £7.7m am arian i helpu i fynd i'r afael â hyn.

KF48. Mae'r prosiect Band Eang Lleol yn rhedeg tan 2025 a dylai fynd lawer o'r ffordd tuag at fynd i'r afael ag adeiladau yng Nghaerdydd lle nad oes gwasanaeth da ar gael.

## ARGYMHELLION

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor Craffu Economi a Diwylliant yn gwneud yr argymhellion canlynol.

- R1. O fewn 6 mis, bod y Cabinet yn datgan ei weledigaeth ar gyfer Caerdydd fel dinas 15 munud, gan egluro sut y bydd hyn yn ystyried rôl economaidd Caerdydd fel prifddinas a chanolfan ranbarthol a bod angen ymagweddu gwahanol ar wahanol ardaloedd yng Nghaerdydd er mwyn bod yn ddinas 15 munud.
- R2. O fewn 9 mis, bod y Cabinet yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer Caerdydd fel dinas 15 munud gyda thrigolion, cymunedau a rhanddeiliaid drwy:
- rhoi'r dasg i swyddogion ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr Ymchwiliad hwn ynghylch mecanweithiau cynllunio cyfranogol i ddatblygu dull o ymgysylltu â thrigolion, cymunedau a rhanddeiliaid, sy'n sicrhau bod modd i bob llais gael ei glywed
  - cymryd rhan mewn deialog â thrigolion, cymunedau a rhanddeiliaid er mwyn helpu i ddatblygu a mireinio cynlluniau gweithredu lleol.
- R3. O fewn 6 mis, bod y Cabinet yn nodi sut y bydd ei weledigaeth ar gyfer Caerdydd fel dinas 15 munud yn rhan annatod o strategaethau a pholisïau'r Cyngor.
- R4. O fewn 12 mis, bod y Cabinet yn sicrhau bod y ddinas 15 munud ar gyfer Caerdydd wedi'i hymgorffori yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol yn y dyfodol, gan ddefnyddio argymhellion Ymchwiliad Canllawiau Cynllunio Atodol Pwyllgor Craffu'r Amgylcheddol (Hydref 2022).
- R5. O fewn 12 mis, bod y Cabinet yn rhoi'r dasg i swyddogion sicrhau bod uwchgynlluniau a pholisïau cynllunio'r dyfodol yn mynegi'n glir y disgwyliad i ddatblygiadau gefnogi Caerdydd fel dinas 15 munud, o ran seilwaith a darpariaeth gymunedol, er mwyn galluogi datblygwyr i gofio y rhain fel rhan o'u hystyriaethau dichonolrwydd.
- R6. O fewn 12 mis, bod y Cabinet yn rhoi'r dasg i swyddogion weithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael ag anghenion trafndiaeth gyhoeddus dinas 15 munud, gan gynnwys ystyried yr angen am ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus yn hwyr yn y nos.
- R7. O fewn 12 mis, bod y Cabinet yn rhoi'r dasg i swyddogion sicrhau, lle mae seilwaith trafndiaeth gynaliadwy yn cael ei negodi, i gefnogi Caerdydd i fod yn ddinas 15 munud o hyd - gan gynnwys



*teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus - bod hyn yn cael ei ddarparu o flaen llaw a chyn i drigolion symud i mewn, fel bod arferion trigolion yn cael eu cyfeirio o'r dechrau'n deg.*

- R8. *O fewn 12 mis, bod y Cabinet yn cofrestru ar Siarter Creu Lleodedd Cymru, sy'n cefnogi cymdogaethau dinas 15 munud.*
- R9. *O fewn 12 mis, bod y Cabinet yn ystyried a fyddai dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cynorthwyo Caerdydd yn ei thaith i fod yn ddinas 15 munud.*
- R10. *O fewn 6 mis, bod y Cabinet yn dechrau adolygiad blynyddol o'r Cynllun Adfer ac Adnewyddu a'r Cynllun Gweithredu Adfer Canol y Ddinas, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu newid yn ôl yr angen er mwyn ymateb i'r dirwedd economaidd sy'n newid yn gyflym.*
- R11. *O fewn 12 mis, bod y Cabinet yn rhoi'r dasg i swyddogion weithio gyda masnachwyr canolfannau lleol ac ardal i ddod o hyd i ffyrdd o sefydlu fforymau masnachwyr, gan gynnwys ymchwilio i ddichonoldeb sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes mewn rhai Canolfannau Ardal.*
- R12. *O fewn 3 mis, bod y Cabinet yn pasio ymlaen i Lywodraeth Cymru y farn a fynegwyd i'r Ymchwiliad hwn ynghylch ymestyn y rhaglen Rhyddhad Ardrethi Busnes dewisol, fel y nodir yn KF15 yr adroddiad hwn.*
- R13. *O fewn 3 mis, bod y Cabinet yn rhoi'r dasg i swyddogion archwilio manteision defnyddio ffyrdd mwy modern o ddefnyddio data er mwyn deall patrymau defnydd ac ymddygiad yng nghanol y ddinas, mewn canolfannau lleol ac ardal a chymdogaethau 15 munud.*
- R14. *O fewn 3 mis, bod y Cabinet yn ystyried yr awgrymiadau ar gyfer gwella profiad y rhai sy'n defnyddio canol y ddinas a chanolfannau lleol ac ardal, fel y nodir yn Prif Ganfyddiad 32a-c, egluro a yw adnoddau'n caniatáu i unrhyw un o'r rhain gael eu gweithredu, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ar y ffordd arfaethedig ymlaen ar yr awgrymiadau hyn.*
- R15. *O fewn 3 mis, bod y Cabinet yn rhoi'r dasg i swyddogion gefnogi Caerdydd AM BYTH i farchnata a hyrwyddo eu prosiect digartrefedd 'CAERedigrwydd', fel y nodir yn Prif Ganfyddiad 32d.*
- R16. *O fewn 6 mis, bod y Cabinet yn rhoi'r dasg i swyddogion wneud dadansoddiad cost a budd o'r gwahanol fodelau ar gyfer darparu Marchnata Cyrchfannau ar gyfer Caerdydd, er mwyn pennu'r ffordd orau ymlaen ar gyfer y gwasanaeth hwn, fel yr amlygwyd gan KF37.*
- R17. *O fewn 6 mis, bod y Cabinet yn rhoi'r dasg i swyddogion archwilio hyfywedd sefydlu cynllun i ddarparu symiau bach o arian i gefnogi entrepreneuriaid a thwf busnesau newydd yng Nghaerdydd, yn debyg i'r cynllun sy'n cael ei weithredu gan Gyngor Dinas Casnewydd.*

- R18. O fewn 3 mis, bod y Cabinet yn rhoi'r dasg i swyddogion weithio gyda rhanddeiliaid teithio llesol allweddol – megis Sustrans Cymru a Living Streets Cymru – i fynd i'r afael â'r materion a nodir ym Mhrif Ganfyddiad 25 a 26.*
- R19. O fewn 12 mis, bod y Cabinet yn rhoi'r dasg i swyddogion baratoi Polisi Gofod Gwaith Fforddiadwy, i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd, sy'n cynnwys ystyried effeithiolrwydd ar gyfer Caerdydd o gofrestrau gofod a risg, yn ogystal â chymhellion unedau gwag a datgymhellion ar gyfer landlordiaid.*

Bydd y Pwyllgor hwn hefyd yn tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc at y prif ganfyddiad canlynol:

*KF 24 – yr angen i'r Cyngor sicrhau bod yna lwybrau teithio llesol er mwyn galluogi disgyblion, athrawon a staff i gyrchu ysgolion yn ddiogel. Mae'r Pwyllgor hwn yn credu y dylid ymestyn hyn i bob ysgol nid yn unig y rhai yn rhaglen ysgolion y 21ain ganrif.*

## Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant

Cynghorydd Peter Wong (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Rodney Berman

Y Cynghorydd Catriona Brown-Reckless

Y Cynghorydd Stephen Cunnah

Y Cynghorydd Jane Henshaw

Y Cynghorydd Peter Huw Jenkins

Y Cynghorydd Helen Lloyd Jones

Y Cynghorydd Daniel Naughton

Y Cynghorydd Leo Thomson